

# DOLEN Y TAB – 49

2–3 EBRILL 2021

## \* Oedfa Sul y Pasg\*

Yng nghwmni'r Parchg. Eirian Rees a chriw Efail Isaf.

## Oedfaon dros yr wythnosau nesaf

### Ebrill

- 11 Y Parchg. Aled Edwards  
18 Manon a Geraint Huws  
25 Geraint Rees

### Mai

- 2 Emlyn Davies  
9 Y Parchg. Aled Edwards

## Gwasanaethau Gwener y Groglith

**11.30 Radio Cymru** Oedfa Gwener y Groglith yng ngofal Huw a Nan Wyn Powell-Davies, Yr Wyddgrug.

**14.00 Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd**  
Ymunwch â'r Cyfarfod Zoom:  
<https://us02web.zoom.us/j/88123493781?pwd=SzlpZzFwVTdFY2dj0FILzhUSjJrdz09>

**Rhif Adnabod y Cyfarfod:** 881 2349 3781  
**Cyfrinair:** 989461

**19.45 S4C** Neges arbennig dros gyfnod y Pasg gan Ddeon Cadeirlan Llanelwy, y Tra Barchedig Nigel Williams.

## Yna ar Sul y Pasg . . .

**11.00 S4C Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol**  
Yng nghwmni'r Parchg. Dr Rosa Hunt, Capel Salem Ton-teg.

**12.00 Oedfa Radio Cymru** yng ngofal Nan Wyn a Huw Powell-Davies, Yr Wyddgrug.

**12.30 Radio Cymru**  
*Bwrw Golwg* gyda John Roberts.

**E-fwletin Cristnogaeth21**  
Bob bore Sul  
[www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

# Newyddion Da

Wrth i obeithion pawb godi y medrwn ddychwelyd i fywyd mwy normal a chael ail-agor drysau'r capel cyn hir, mae'n braf iawn gallu rhannu un darn o newyddion i godi'r galon ymhellach. Mae Rhiannon Humphreys wedi cytuno i fod yng ngofal y bedyddiadau a gynhelir yn y Tabernacl pan fydd y llacio ar y cyfyngiadau presennol yn caniatáu i hynny ddigwydd yn ddiogel. Diolch o galon i Rhiannon am ei pharodrwydd i ymgymryd â'r swydd bwysig hon. Rwy'n siŵr y bydd nifer o rieni ifanc, rhai wedi bod yn disgwyl ymlaen yn amyneddgar am y cyfle i fedyddio eu plant am flwyddyn gron, wrth eu boddau o glywed y newyddion.



## Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd nos Fawrth 13 Ebrill. Os carech godi mater yn y Bwrdd, cysylltwch â'r Ysgrifennydd: (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205 / 0771 237327) **erbyn nos Lun 12 Ebrill.**

## Panel Diogelu

Ers sefydlu'r Panel Diogelu Grwpiau Bregus saith mlynedd yn ôl, mae dros 2,000 o bobl ledled Cymru wedi derbyn hyfforddiant gan y Swyddog Diogelu. Er mor galonogol yw hynny, mae llawer iawn o wirfoddolwyr yn dal heb gael hyfforddiant, a bydd yn angen yn cynyddu yn y dyfodol gan fod yr enwadau wedi penderfynu bod angen adnewyddu'r hyfforddiant bob pedair blynedd.

O ganlyniad, mae'n fwriad gennym i ddatblygu tîm o hyfforddwyr gwirfoddol lleol i gyflawni'r rôl bwysig hon, a bydd aelodau'r tîm newydd yn mynychu sesiwn "hyfforddi'r hyfforddwr" er mwyn bod yn gymwys i hyfforddi eraill gan ddefnyddio cyflwyniad a sgript benodol.

Os hoffech fod yn rhan o'r cynllun cyffrous hwn, holwch Emlyn Davies am ragor o fanylion: 02920 891344 neu [emlyn.pentyrch@btinternet.com](mailto:emlyn.pentyrch@btinternet.com)

# Tymor Gwyngalchu

Digwyddais glustfeinio ar sgwrs yn ddiweddar lle cyfeiriwyd at arferiad deddfol chwarelwyr Arfon o blannu tatws dros y Pasg. Petai'r Pasg yn ŵyl sefydlog byddai'r weithred hon yn un ddigon rhesymol, ond fel y gwyddom gall y Pasg ddisgyn mor gynnar â 22 Mawrth neu cyn hwyred â 25 Ebrill – cryn fwlch, dybiwn i, i arddwyr profiadol. Roedd y sgwrs o ddi-ddordeb personol i mi, oherwydd dyna'n union fyddai'n digwydd bob Pasg gartref – mae'n amlwg bod fy nhad wedi parhau i lynu wrth yr hen arferiad a welodd yn Nyffryn Nantlle lle'i magwyd cyn symud i Sir y Fflint.

## Gwyngalchu Eglwysi

Defod wanwynol wahanol iawn oedd yn wynebu llawer o'n hynafiaid yn yr oes a fu ar ddiwedd misoedd y gaeaf, sef gwyngalchu eu cartrefi. Diffiniad **Geiriadur Prifysgol Cymru** o'r gair 'gwyngalch' yw 'cymysgedd o ddŵr a chalch a ddefnyddir i wynnu muriau, nenfydau a thoeau weithiau . . .'. Yn wahanol i baent cyffredin, pan fydd wedi sychu mae'r gwyngalch yn datblygu plisgyn caled sy'n effeithiol wrth atal gwlybanaeth rhag treiddio drwy'r waliau.

Ond nid ar furiau adeiladau megis tyddynnod a ffermydd gwledig yn unig y gwelid gwyngalch – roedd hefyd yn gyffredin iawn ar furiau cestyll ac eglwysi. Mewn ysgrif gan Edgar Jones a ymddangosodd gyntaf yn *Y Rhwyd*, papur bro gogledd-orllewin Sir Fôn, yn 2003 cyfeirir at hen lyfr festri Eglwys Cybi, Caerdybi o'r ddeunawfed ganrif lle byddai'r Wardeiniaid yn cadw nodyn o'r cyfrifon. Yndo fe adroddir fod yr eglwys yn cael ei gwyngalchu bob gwanwyn. Er enghraifft, yn 1740 talwyd gini am wneud y gwaith, ynghyd â dau swllt i gynorthwydd am gario'r dŵr i gymysgu'r calch, a hanner coron i *cleaner* am olchi ar ôl y ddau. Mae muriau allanol sydd wedi eu gwyngalchu yn edrych ar eu gorau yn yr haul yn y misoedd cyntaf wedi cwblhau'r gwaith.

Hyn sy'n egluro pam fod Wardeiniaid Eglwys Cybi wedi dewis gwyngalchu ddwywaith yn 1746 wedi iddynt dderbyn llythyr gan Esgob Bangor yn dweud ei fod




*Eglwys Sant Teilo wyngalchog a godwyd yn wreiddiol ar lan afon Llŵchwr ond sydd bellach wedi ei symud i safle'r Amgueddfa Werin.*

am dalu ymweliad â'r eglwys ym mis Hydref. Ond gan mai slempyn ysgafn oedd ei angen y tro hwn, dim ond chwe cheiniog dderbyniodd Jane Lyons am lanhau ar eu holau!

## Gwyngalchu Hiliaeth

Yng **Ngeiriadur Prifysgol Cymru** mae diffiniad ffigurol amgen i'r gair 'gwyngalchu', sef '*ceisio cuddio beiau neu wendidau rhywun neu rywbeth drwy roi gwedd mwy ffafriol [iddo/arno] . . .*' Wrth gwrs, nid gweithgarwch tymhorol mo hwn, oherwydd gall digwydd mewn rhyw faes neu'i gilydd bob dydd o'r flwyddyn. Ond mae'n amlwg bod Llywodraeth San Steffan

yn ymwybodol iawn o fanteision y traddodiad hynafol o wyngalchu ar yr arwydd cyntaf bod y



llymder y gaeaf wedi cilio. Pa reswm arall sydd yna dros ddewis gohirio cyhoeddi adroddiad y comisiwn a sefydlwyd i archwilio anghyfartaledd ar sail hil – oedd yn barod i'w ryddhau fis Tachwedd y llynedd – hyd ddiwedd mis Mawrth eleni? Mae'n anodd credu hefyd mai cyd-ddigwyddiad oedd i'r adroddiad weld golau dydd ar y diwrnod cynhesaf o fis Mawrth a gafwyd yn Llundain ers dros hanner canrif.

Mae llawer iawn o'r casgliadau a welir yng nghorff yr adroddiad yn gwbl anfaddeuol ac yn cadarnhau'r honiad mai cymhellion gwleidyddol sinigaidd sydd y tu cefn iddynt, yn hytrach na rhai ar sail tystiolaeth ddiuedd. Mae profiadau miloedd o bobl ifanc sydd wedi ac yn parhau i ddi-dded hiliaeth yn eu bywydau bob dydd yn cael eu sgubo dan y carped i alluogi'r Llywodraeth i gynnal naratif nad yw hiliaeth sefydliadol yn bodoli yn y Deyrnas Gyfunol. Ond yn fwy na hynny, awgrymir eu bod yn cynnig patrwm o gydraddoldeb hil i weddill gwledydd y byd lle mae'r mwyafrif yn bobl wyn. Mae'n anodd cysoni casgliadau'r adroddiad hwn gyda phum adroddiad arall yn y maes a gyhoeddwyd gan Lywodraethau'r Ceidwadwyr rhwng 2017 a 2020 – pob un ohonynt wedi dod i gasgliadau gwahanol iawn. Ychydig o welliannau a welwyd yn sgil yr adroddiadau hynny, a'r perygl bellach yw y bydd agwedd ddifater y comisiwn at y broblem yn arwain at wrthdaro ffyrnig yn hytrach na dileu agweddau hiliol ein sefydliadau a'n cymunedau.

---

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.*

*Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) / 07710 237327 / 01443 225205.*